**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar gynnig y Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14

Mawrth 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8120
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229**

Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar gael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5722**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar gynnig y Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14

Mawrth 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

Aeth Sandy Mewies i'r cyfarfod ar 19 Chwefror 2014 fel dirprwy ar ran Ann Jones.



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn

# Cynnwys


**Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor ..... 5**

**1. Trosolwg ..... 7**

Crynodeb ..... 7

Cyrff eraill ..... 8

Comisiwn y Cynulliad ..... 8

Safbwynt y Pwyllgor ..... 8

Cyllideb yr Archwilydd Cyffredinol ..... 8

Safbwynt y Pwyllgor ..... 9

**2. Fforddiadwyedd ..... 10**

Cyllid Byrddau Iechyd Lleol ..... 10

Tystiolaeth gan y Gweinidog ..... 10

Safbwynt y Pwyllgor ..... 11

Pwerau Benthyca Llywodraeth Cymru ..... 12

Tystiolaeth gan y Gweinidog ..... 12

Safbwynt y Pwyllgor ..... 13

Cronfeydd wrth gefn a'r System Cyfnewid Cyllidebau ..... 13

Tystiolaeth gan y Gweinidog ..... 13

Safbwynt y Pwyllgor ..... 14

Diwygio lles ..... 14

Tystiolaeth gan y Gweinidog ..... 15

Safbwynt y Pwyllgor ..... 16

**3. Blaenoriaethu ..... 17**

Y Rhaglen Lywodraethu ..... 17

Tystiolaeth gan y Gweinidog ..... 17

Safbwynt y Pwyllgor ..... 18

Gwariant Ataliol ..... 18

Tystiolaeth gan y Gweinidog ..... 18

Safbwynt y Pwyllgor ..... 19

**4. Gwerth am arian** ........ **20**

Buddsoddi i Arbed ........ 20

Tystiolaeth gan y Gweinidog ........ 21

Safbwynt y Pwyllgor ........ 22

**5. Proses y Gyllideb** ........ **23**

**Atiodoad 1: Memorandwm Esboniadol - Archwilydd Cyffredinol Cymru** ........ **24**

**Atiodoad 2: Tystion** ........ **33**

**Atiodoad 3: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **34**

## Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor

**Casgliadau:** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gyllideb atodol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad. (Tudalen 8)

**Casgliadau:** Ystyriodd y Pwyllgor y Memorandwm Esboniadol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunodd ei fod yn fodlon ar yr amrywiad arfaethedig i'r gyllideb. (Tudalen 9)

**Casgliadau:** Mae'r Pwyllgor yn falch o nodi bod y Gyllideb Atodol yn dangos fod cyllid ar gyfer iechyd yn flaenoriaeth glir. O ran y pecyn cyllid £150 miliwn a ddyrannwyd i fodloni'r gofynion a'r pwysau yn dilyn Adolygiad Francis, mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd at y mater o ariannu adolygiad Francis yn ddiweddarach. Nododd y Pwyllgor fod £16.4 miliwn o'r ffigur hwnnw'n ymwneud â chostau a ragwelir ar gyfer rhaglenni imiwneiddio newydd, ariannu'r cyffur Kalydeco a phecynnau ymddeoliad cynnar gwirfoddol. (Tudalen 11)

**Casgliadau:** Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod Byrddau Iechyd Lleol ar hyn o bryd yn amcangyfrif gorwariant o bron i £77 miliwn a bod angen mwy na'r £50 miliwn wrth gefn i liniaru ar hynny. Nododd y Pwyllgor farn y Gweinidog bod yr amcangyfrifon gorwariant misol yn gostwng a'i bod yn hyderus y byddent yn disgyn i £50 miliwn neu'n is erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai'r gronfa wrth gefn leihau cymhelliant Byrddau Iechyd Lleol i fantoli'r cyfrifon erbyn diwedd y flwyddyn. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog ddarparu manylion ysgrifenedig am y trefniadau ar gyfer ad-dalu'r cyllid trafodion ariannol i'r Trysorlys ar ôl iddynt ddod i gytundeb. (Tudalen 13)

**Casgliadau:** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd yn is na'r cap, ac eithrio adnoddau anghyllidol. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ei bod yn costio dros £2 filiwn i Wasanaethau Cyhoeddus Northgate weinyddu'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwaith pellach yn cael ei wneud i fonitro ac adolygu sut y mae'r gronfa yn cael ei gweinyddu, a yw'r costau gweinyddu yn gymesur a pham mae'r niferoedd cychwynnol ar gyfer y cynllun wedi bod yn isel, o ystyried fod y cynllun yn cymryd lle cynllun a oedd eisoes yn bodoli. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi nod y Gweinidog i wella'r cyswllt rhwng dyraniadau a chanlyniadau ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle i gynnwys gwybodaeth am y mewnbwn o adnoddau yn ogystal ag allbynnau a chanlyniadau yn adroddiad blynyddol nesaf y Rhaglen Lywodraethu. (Tudalen 18)

**Casgliadau:** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog wedi ymrwymo i flaenoriaethu ceisiadau am gyllid pellach o ran sut mae'r ceisiadau yn cysylltu â gwariant ataliol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dull hwnnw, a hoffai weld mwy o dystiolaeth mewn cyllidebau yn y dyfodol yn dangos sut mae gwariant ataliol yn cael ei flaenoriaethu a sut a phryd y caiff buddion eu gwireddu. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor yn cytuno y gellir ystyried y £50 miliwn wrth gefn ar gyfer Iechyd fel gwariant ataliol. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dyraniad o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* a'r ad-daliadau iddi, ac mae'n fodlon ar hynny. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ymrwymo i gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n manylu ar yr arian sy'n cael ei drosglwyddo o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* a'i ad-dalu iddi. Dylai'r adroddiad nodi arbedion gwirioneddol ac arfaethedig prosiectau *buddsoddi i arbed*. (Tudalen 22)

**Casgliadau:** Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld symudiad pellach tuag at gyllidebu sy'n seiliedig ar ganlyniadau a gwelliant parhaus yn lefel y tryloywder o fewn y gyllideb, i sicrhau bod y wybodaeth fwyaf priodol a thryloyw ar gael i'w harchwilio yn gyhoeddus. (Tudalen 23)

# 1. Trosolwg

2. Gosododd y Gweinidog Cyllid (Jane Hutt AC) gynnig yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2013-14 ar 11 Chwefror 2014. Yn cyd-fynd â'r cynnig roedd nodyn esboniadol a thablau yn dangos y dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant (MEG). Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio Cyllideb Atodol gyntaf 2013-14 o fis Mehefin 2013.

3. Ymddangosodd y Gweinidog Cyllid ('y Gweinidog') gerbron y Pwyllgor Cyllid ('y Pwyllgor') ar 19 Chwefror 2014.[1]

4. Ar 11 Mawrth 2014, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod a yw am gymeradwyo'r newidiadau a wnaed yn y cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol ai peidio.

5. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y pedair egwyddor ar gyfer craffu ariannol:

- Fforddiadwyedd - Mewn geiriau eraill, i edrych ar y darlun ehangach o ran y cyfanswm refeniw a gwariant, ac a ydynt wedi'u cydbwyso yn briodol;
- Blaenoriaethu - Mewn geiriau eraill, a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau;
- Gwerth am arian - Yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (hynny yw, canlyniadau); a
- Prosesau'r Gyllideb - A ydynt yn effeithiol a hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol.

**Crynodeb**

6. O gymharu â Chyllideb Atodol Gyntaf 2013-14[2] gwelir bod:

- Cyfanswm y gwariant a reolir (TME) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 4.1%, neu £643 miliwn.
- Terfyn gwariant adrannol (DEL) yn gyffredinol wedi cynyddu 2.9%, neu £443 miliwn.

[1] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 19 Chwefror 2014
[2] Llywodraeth Cymru, Cynnig y Gyllideb Atodol 2013-14, 25 Mehefin 2013 [fel ar 19 Chwefror 2014]

7. **Nodyn:** Ffigurau absoliwt yw'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn. Gan fod y ffigurau'n cyfeirio at y flwyddyn ariannol bresennol, ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant.

## Cyrff eraill

### Comisiwn y Cynulliad

8. Ar 3 Chwefror 2014 gosododd Comisiwn y Cynulliad y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gyllideb Atodol.[3]

9. Ystyriodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig a nodi'r cynnydd o £700,000 i'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) a'r gostyngiad o £700,000 i'r Gyllideb Adnoddau.

10. Darparodd Comisiwn y Cynulliad fanylion yn nodi sut mae'r ad-daliad yn ymwneud â'r pedair blynedd ariannol ddiwethaf. Nododd y Comisiwn hefyd y byddai arbediad blynyddol o £0.2 miliwn o ran yr ad-daliad hwn a fyddai'n cael ei ail-fuddsoddi yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cynnydd mewn AME yn debygol o gael ei ailadrodd yn 2014-15 ac, os felly, bydd angen cyllideb atodol ar gyfer hynny.

***Safbwynt y Pwyllgor***

**Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gyllideb atodol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad.**

### Cyllideb yr Archwilydd Cyffredinol

11. Mae Rheol Sefydlog 20.35 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) ddarparu memorandwm esboniadol i'r Pwyllgor yn nodi pam mae angen amrywiad i'r gyllideb.

12. Cyflwynodd ACC femorandwm esboniadol i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2013, sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 1, yn hysbysu'r Pwyllgor ei fod yn bwriadu ceisio am amrywiad o £187,000 i'w amcangyfrif i fynd i'r afael â newid yn statws TAW cyflenwadau'r Archwilydd Cyffredinol.

---

[3] www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm

*Safbwynt y Pwyllgor*

**Ystyriodd y Pwyllgor y Memorandwm Esboniadol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunodd ei fod yn fodlon ar yr amrywiad arfaethedig i'r gyllideb.**

## 2. Fforddiadwyedd

### Cyllid Byrddau Iechyd Lleol

13. Cododd adroddiad y Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft 2013-14 bryderon ynghylch lefel y dyraniadau a wnaed i Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) a nododd risg, pe byddai'r cyllid yn annigonol, y byddai'r angen am gyllid iechyd ychwanegol yn tynnu arian o bortffolios eraill, gan danseilio blaenoriaethau'r Llywodraeth. Nododd yr adroddiad bod y Pwyllgor yn bwriadu "dod yn ôl at y mater ynghylch digonolrwydd adnoddau'r GIG pan fyddwn yn archwilio'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2013-14".[4]

14. Mae'r ail gyllideb atodol yn nodi cynnydd net o £199.9 miliwn yn y DEL Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys cynnydd o £200.7 miliwn mewn refeniw a gostyngiad £0.8 miliwn mewn cyfalaf.

15. Mae'r rhan fwyaf o'r dyraniadau refeniw mewn perthynas â:

- Pecyn cyllid £150 miliwn a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ym mis Hydref 2013 i fodloni'r gofynion a'r pwysau yn dilyn Adolygiad Francis; daw £142.6 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn a £7.4 miliwn o Buddsoddi i Arbed;
- £50 miliwn i'w ddal wrth gefn o fewn y MEG adrannol rhag ofn na fydd rhai Byrddau Iechyd Lleol yn gallu mantoli'r cyfrifon.

#### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

16. Gofynnodd y Pwyllgor a ellir gostwng yr amcangyfrifon presennol o bron i £77 miliwn ar gyfer diffygion Byrddau Iechyd Lleol yn gyffredinol ar gyfer mis 10 y flwyddyn ariannol hon fel eu bod o fewn y £50 miliwn sydd ar gael fel cronfa wrth gefn yn y Gyllideb Atodol hon.

17. Nododd y Gweinidog fod y diffygion a amcangyfrifir yn dilyn tuedd ar i lawr. Dywedodd:

> "We are now into a period where we have had the month 10 figures. There is a very clear message from the Minister [for Health and Social Services] that positive improvements are needed in the time left in this financial year. We have to

[4] www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/cr-ld9091-e.pdf

recognise that there are financial risks, and that is why I have allocated the additional £50 million."[5]

18. Cafodd Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ariannol newydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd ariannol yn hytrach na phob blwyddyn.

19. Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai'r cyhoeddiad am y £50 miliwn ychwanegol leihau cymhelliant Byrddau Iechyd Lleol i ymdrechu i fantoli'r cyfrifon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac a allai hyn gael effaith ar y trefniant cynlluniau ariannol tair blynedd ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi'i dderbyn o dan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) 2014.

20. Roedd y Gweinidog o'r farn bod y Byrddau Iechyd Lleol ar y trywydd iawn ar gyfer cael eu cynlluniau cyllideb tair blynedd wedi'u cymeradwyo ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd:

> "In terms of the three-year financial plans, it is my understanding that they had to be before the Minister [for Health and Social Services] and the health department before the end of January, so, obviously, those plans are being looked at very carefully now. We are on track, I understand, to approve those three-year plans at the start of the new financial year, and, quite clearly, these are issues for the Minister for Health and Social Services, but there is planning guidance from the new Act, which does mean that we are into a new regime in terms of the financial management of the health service."[6]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**Mae'r Pwyllgor yn falch o nodi bod y Gyllideb Atodol yn dangos fod cyllid ar gyfer iechyd yn flaenoriaeth glir. O ran y pecyn cyllid £150 miliwn a ddyrannwyd i fodloni'r gofynion a'r pwysau yn dilyn Adolygiad Francis, mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd at y mater o ariannu adolygiad Francis yn ddiweddarach. Nododd y Pwyllgor fod £16.4 miliwn o'r ffigur hwnnw'n ymwneud â chostau**

---

[5] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 9
[6] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 32

**a ragwelir ar gyfer rhaglenni imiwneiddio newydd, ariannu'r cyffur Kalydeco a phecynnau ymddeoliad cynnar gwirfoddol.**

**Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod Byrddau Iechyd Lleol ar hyn o bryd yn amcangyfrif gorwariant o bron i £77 miliwn a bod angen mwy na'r £50 miliwn wrth gefn i liniaru ar hynny. Nododd y Pwyllgor farn y Gweinidog bod yr amcangyfrifon gorwariant misol yn gostwng a'i bod yn hyderus y byddent yn disgyn i £50 miliwn neu'n is erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai'r gronfa wrth gefn leihau cymhelliant Byrddau Iechyd Lleol i fantoli'r cyfrifon erbyn diwedd y flwyddyn.**

## Pwerau Benthyca Llywodraeth Cymru

21. Mae'r gyllideb atodol yn cynnwys nifer o ddyraniadau mewn perthynas â thrafodion ariannol gan Drysorlys y DU. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r trafodion ariannol yn grantiau cyfalaf traddodiadol ac mai dim ond at ddibenion benthyca ac ecwiti y gellir eu defnyddio, tra bo hefyd angen ad-dalu cyfran o'r arian i'r Trysorlys.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

22. Trafododd y Pwyllgor gyda'r Gweinidog yr amrywiaeth ac ystod o bwerau benthyca a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid arloesol, trafodion ariannol a phwerau benthyca yn cael eu datganoli fel rhan o'r Bil Cymru, yn ogystal â lefelau benthyca cyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

23. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor na fyddai pwerau benthyca presennol gan ddefnyddio cyllid arloesol a thrafodion ariannol o Drysorlys EM yn cyfrannu at derfynau benthyca Llywodraeth Cymru yn y Bil Cymru sydd i ddod. Dywedodd:

> “No, they will not, because all of our use of innovative finance and financial transactions do not count, in fact, as capital borrowing, so it would not impact on the limit. Of course, we do not yet have the powers to borrow, so we are doing what we can with our powers but it does not count, fortunately, against the £500 million.”[7]

24. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd y telerau ad-dalu ar gyfer y cyllid trafodion ariannol wedi'u cytuno'n ffurfiol a'u bod yn dal i fod yn

[7] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 68

destun trafod. Ymrwymodd y Gweinidog i roi adborth ar unrhyw benderfyniadau a wneir yn y cyfarfod pedairochrog nesaf. Dywedodd:

> "…at the last finance quadrilateral meeting that we had, which was in November, all Ministers for Finance across the devolved administrations were pressing for more flexibility, in terms of the financial transactions. We did secure from that discussion with the Chief Secretary to the Treasury enhanced end-of-year flexibility arrangements for financial transactions for this financial year and the next financial year. Now, what we are working on are the repayment terms on those because, yes, it has given us more flexibility in terms of spend in the next two financial years, but the repayment terms are still to be confirmed. That is something I hope we will conclude at the next quadrilateral meeting. I will want to then feed that back to the Assembly."[8]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog ddarparu manylion ysgrifenedig am y trefniadau ar gyfer ad-dalu'r cyllid trafodion ariannol i'r Trysorlys ar ôl iddynt ddod i gytundeb.**

## Cronfeydd wrth gefn a'r System Cyfnewid Cyllidebau

25. Mae dogfennaeth y gyllideb atodol yn nodi'r cyllid y gellir ei ddwyn ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau a lefel bresennol cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

26. Ynghylch lefel y cronfeydd ariannol wrth gefn, dywedodd y Gweinidog:

> "I am confident that we have the right level of fiscal reserves at present. It is comparable with each of the last three years, in terms of the reserve. You are absolutely right on why we need that. I have been looking at this every month to see what we can reallocate. That is why we were able to announce not just

[8] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 62

> the £50 million for health but also the £5 million for social housing, in the supplementary budget."[9]

*Safbwynt y Pwyllgor*

**Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd yn is na'r cap, ac eithrio adnoddau anghyllidol.**

**Diwygio lles**

27. Cafwyd cyfeiriad at ddiwygio lles a materion cysylltiedig yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2013-14.

> "**Casgliad**: Credwn y bydd diwygio lles, cymorth y dreth gyngor a chofrestru ar gyfer pensiwn yn awtomatig yn cynyddu'r pwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Rydym yn bwriadu ailedrych ar oblygiadau pob un o'r tair enghraifft eto yn ystod y cyfnod o graffu ar gyllidebau atodol, ac yn ystod ein gwaith o graffu ar gyllid yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn."[10]

28. Ym mis Ionawr 2013, ymrwymodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd (Carl Sargeant AC) i ddarparu £22 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol i weithredu'r newid i liniaru yn erbyn y diffyg yn y cyllid gan Lywodraeth y DU.[11] Dyrannwyd £2 miliwn o gronfeydd refeniw wrth gefn at y diben hwn yn ail Gyllideb Atodol 2012-13 ym mis Chwefror 2013.[12] Yn ei adroddiad ar ail gyllideb atodol 2012-13, argymhellodd y Pwyllgor:

> "Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cymorth fforddiadwy ar gael i dalu'r Dreth Gyngor, a bod y Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y modd y penderfynir darparu ar gyfer hyn yn y dyfodol."[13]

29. Roedd y gyllideb atodol gyntaf, Mehefin 2013, yn dyrannu £19 miliwn pellach o gronfeydd wrth gefn yn 2013-14 i gefnogi hyn.

---

[9] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 86

[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar gynnig cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-2014 - Tachwedd 2012 [fel ar 25 Mehefin 2013]

[11] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau), *Cymorth y Dreth Cyngor*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, Ionawr 2013 [fel ar 13 Chwefror 2014]

[12] Llywodraeth Cymru, *Nodyn Esboniadol Cyllideb Atodol 2012-13,* Chwefror 2013 (tudalen 22) [fel ar 13 Chwefror 2014]

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, *Craffu ar gynnig Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13*, Chwefror 2013

Roedd hefyd trosglwyddiad o £12.4 miliwn o'r DU mewn perthynas â diddymu'r Gronfa Gymdeithasol Ddewisol, sydd wedi'i ddyrannu i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi.[14] O ganlyniad i ddiddymu'r Gronfa Gymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa amgen, sef Cronfa Cymorth Dewisol Cymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2013. Dyma'r manylion:

> "This cash limited fund will initially run until March 2015. The scheme is being managed, under contract to the Welsh Government, by Northgate Public Services (Northgate) working in partnership with The Family Fund and Wrexham County Borough Council."[15]

30. Mae'r ail gyllideb atodol yn cynnwys cyfeiriad at drosglwyddo £568,000 o'r gyllideb ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn dilyn cyfnod cychwynnol y Gronfa Cymorth Dewisol.

31. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn amlygu'r dyraniad canlynol yn benodol o ran lliniaru ar effaith Diwygio Lles:

> "A net transfer in of £1,300k to create a Discretionary Housing Payment Scheme to help mitigate the impact of the UK Government's Welfare Reform changes in Wales, comprising: £400k from the Supporting People Action; £600k from the Regeneration Action; and £300k from the Planning Policy Development, Planning."

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

32. O ran y gronfa cymorth dewisol, dywedodd y Gweinidog:

> "From constituency work, Members will probably know that there is a slow take-up in terms of people getting to know about the discretionary assistance fund. However, the budget for this financial year is £10.2 million, and the budget for next financial year is £10.2 million. As a result of the slow take-up there was an underspend, but the take-up is now at expected levels. You have probably noted that the transfer of savings on administration costs was reallocated to support the children's

---

[14] Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru [http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2013/07/Welsh-Government-additional.pdf](http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2013/07/Welsh-Government-additional.pdf)
[15] Llywodraeth Cymru, Cronfa Cymorth Dewisol Cymru

> play duty. That, again, is where we try to manage things within year via an appropriate policy area."[16]

33. Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch costau gweinyddu'r gronfa. Dywedodd y Gweinidog:

> "There is also £2 million for administration on top of the £10.2 million. So, it is £12.2 million. The transfer is £12.2 million. It is £10.2 million for the actual fund and £2 million for administration."[17]

34. Pan ofynnwyd a oedd unrhyw adolygiad yn cael ei wneud o ran gweinyddu'r gronfa, dywedodd y Gweinidog mai mater i'r Gweinidog Tai ac Adfywio oedd hynny.[18]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**Mae'r Pwyllgor yn pryderu ei bod yn costio dros £2 filiwn i Wasanaethau Cyhoeddus Northgate weinyddu'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwaith pellach yn cael ei wneud i fonitro ac adolygu sut y mae'r gronfa yn cael ei gweinyddu, a yw'r costau gweinyddu yn gymesur a pham mae'r niferoedd cychwynnol ar gyfer y cynllun wedi bod yn isel, o ystyried fod y cynllun yn cymryd lle cynllun a oedd eisoes yn bodoli.**

[16] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 111
[17] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 113
[18] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 119

# 3. Blaenoriaethu

### Y Rhaglen Lywodraethu

35. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2013.[19] Yng Nghyllideb Ddrafft 2013-14, darparwyd atodiad a oedd yn cysylltu camau gweithredu dethol o'r gyllideb â Phenodau yn y Rhaglen Lywodraethu. Er nad oedd cyswllt ag ymrwymiadau penodol, roedd yn creu'r cyswllt cyntaf rhwng y gyllideb a'r Rhaglen Lywodraethu.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

36. Pan ofynnwyd sut mae'r rhaglen lywodraethu yn cyd-fynd â dyraniadau yn y gyllideb a sut mae blaenoriaethau a chynnydd o ran y rhaglen wedi dylanwadu ar y dyraniadau a wnaed yn y gyllideb atodol, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ail-flaenoriaethu cyllid tuag at iechyd, dywedodd y Gweinidog:

> "Although the whole budget is geared and steered by the programme for government, we have sought to align the budget with the committee's scrutiny, advice and support. We have aligned that more in terms of presenting the budget. Within year, in terms of the supplementary budget, it is very much in the context of in-year financial management pressures and emerging changes and pressures and opportunities. The programme for government has to underpin the decisions we make about financial management in year. We came to the summer with the Francis report and a very clear statement from the Minister for Health and Social Services, the Welsh Government and the First Minister that we had to respond to this effectively and appropriately. It fits well with our programme for government and in the sense that our commitment as a Government is to health. That explains how we have to judge. The supplementary budget has to be about how we manage our budget in year, which includes reallocation. All Ministers know, in terms of the reallocations that they have to make, that they still have to deliver on their programme for government objectives."[20]

---

[19] Llywodraeth Cymru, Y Rhaglen Lywodraethu [fel ar 13 Chwefror 2014]
[20] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 55

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**Mae'r Pwyllgor yn cefnogi nod y Gweinidog i wella'r cyswllt rhwng dyraniadau a chanlyniadau ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle i gynnwys gwybodaeth am y mewnbwn o adnoddau yn ogystal ag allbynnau a chanlyniadau yn adroddiad blynyddol nesaf y Rhaglen Lywodraethu.**

## Gwariant Ataliol

37. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad canlynol yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2013-14:

> **Conclusion:** The evidence we received did not provide assurance that there is a shift in budget emphasis towards preventative spending.

38. Roedd y Pwyllgor hefyd yn canolbwyntio ar wariant ataliol wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2014-15.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

39. Trafododd y Pwyllgor gyda'r Gweinidog sut y cafodd gwariant ataliol ei flaenoriaethu o ran gwneud penderfyniadau ar ddyraniadau yn ystod y flwyddyn. Croesawodd y Gweinidog y ffaith fod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar wariant ataliol. Dywedodd fod y Llywodraeth yn gweithio'n galetach yn y maes hwn. Rhoddodd y Gweinidog rai enghreifftiau o'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran gwariant ataliol, dywedodd:

> "I would suggest that increased funding for the NHS is preventative. One part of that is not just about the response to the Francis review, but new pressures, such as immunisation, developing during the year that were not forecasted. We know that health spending can have a very clear preventative impact. I would also say the same for the total housing grant—the £5 million, 60 to 100 new affordable homes, the help in terms of tackling housing need, which we debated last week, and 100 jobs in the construction phase. Therefore, I believe that the decisions that we have made—and we have just mentioned flooding and coastal erosion—and the statement that was made last week by the Minister for Natural Resources and Food, demonstrate that we were well-placed in Wales, fortunately, in terms of the investment that we have already made in flood

> protection, and protection against coastal erosion. We know, and everyone with a coastal constituency will know, that much of our flood defence investment—that £240 million, and £50 million of European funding—has made an impact. So, I think that we can say that there is quite clearly a preventative element in our additional allocations."[21]

***Safbwynt y Pwyllgor***

**Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog wedi ymrwymo i flaenoriaethu ceisiadau am gyllid pellach o ran sut mae'r ceisiadau yn cysylltu â gwariant ataliol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dull hwnnw, a hoffai weld mwy o dystiolaeth mewn cyllidebau yn y dyfodol yn dangos sut mae gwariant ataliol yn cael ei flaenoriaethu a sut a phryd y caiff buddion eu gwireddu. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor yn cytuno y gellir ystyried y £50 miliwn wrth gefn ar gyfer Iechyd fel gwariant ataliol.**

---

[21] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 93

# 4. Gwerth am arian

**Buddsoddi i Arbed**

40. Gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad yn dilyn ei ymchwiliad i'r gronfa 'Buddsoddi i Arbed':

> "Roedd y prosiectau buddsoddi i arbed gorau y bu i ni edrych arnynt yn dangos cysylltiad clir rhwng y buddsoddiad a wnaed a'r arbedion a gynhyrchwyd. Er nad oes dwywaith ei bod yn bwysig dod o hyd i arian ychwanegol ar gyfer creu Cyfoeth Naturiol Cymru, nid yw'n glir i ni mai prosiect Buddsoddi i Arbed oedd hwn. Rydym yn argymell mai dim ond mewn achosion lle mae tystiolaeth gadarn bod arbedion yn cael eu cynhyrchu o fuddsoddiadau y dylid defnyddio cronfeydd buddsoddi i arbed, ac nid ar gyfer achosion lle mae angen arian ychwanegol, sy'n debygol o gynhyrchu arbedion dros amser."[22]

41. Yn ei hymateb i'r adroddiad, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad, gan nodi:

> "The Invest-to-Save Fund will continue to support a variety of different project proposals ad initiatives that lead to improvements in public services. All projects supported need to demonstrate that they will ultimately lead to financial savings and inevitably there will be project differences regarding timing and approach between an investment and subsequent savings; however, all projects still need to generate savings in order to qualify for Invest-to-Save support."[23]

42. Mae'r gyllideb atodol gyfredol yn gwneud dau drosglwyddiad o dros £250,000 o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* yn y portffolio Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, gyda'r rhan fwyaf ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd, £12.2 miliwn. Mae'r ddogfen esboniadol yn darparu'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r dyrniad *Buddsoddi i Arbed* hwn i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

> "£12,224k in from the Invest-to-Save Fund Action within the Central Services and Administration MEG to the Delivery of Core

---

[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, *Buddsoddi i Arbed*, Mawrth 2013 [fel ar 13 Chwefror 2014]

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, *Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad Buddsoddi i Arbed, Atodiad A* , Ebrill 2013 [fel ar 13 Chwefror 2014]

NHS Services Action in respect of Invest-to-Save investments. This includes £7,432k announced as part of the £150,000k funding package announced by the Minister for Finance in October 2013 to meet new demands and the recognised service pressures arising from the Francis Review."[24]

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

43. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am y dyraniadau o £12.2 miliwn i gyflenwi gwasanaethau craidd y GIG a sut mae hynny'n cyd-fynd ag ethos y gronfa *buddsoddi i arbed* o ran creu arbedion drwy wella. Dywedodd y Gweinidog fod y dyraniad yn driw iawn i ethos buddsoddi i arbed. Eglurodd:

> "£0.9 million has been allocated for Betsi Cadwaladr LHB, which is for enhanced care home services in north Wales, the benefits of which include an improved experience for patients. That will release recurrent annual net cash efficiency savings of over £900,000. We also have £0.2 million for Hywel Dda LHB for the implementation of digital dictation, with net efficiency savings of £120,000. You will be aware, from when you did your review that we have a voluntary early release scheme in the NHS, which is worth £7.4 million and is part of the package announced last year. That will release significant recurrent savings. We have used the invest-to-save voluntary early release very effectively."[25]

44. Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro ymhellach yr arbedion sy'n gysylltiedig â rhyddhau yn gynnar. Dywedodd:

45. "The NHS voluntary early release is, as it says, a voluntary early release from the health service. All the health boards and the health service have come together on this; it has been very much at the forefront of the efficiency and cash-releasing savings for the health service. If it would be helpful, we can give you information on where those voluntary early release changes have been taking place. They certainly have not been in the front line of the health service; they have been in many administrative posts. It is a minimum of £7.4 million in

[24] www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s24250/FIN4-03-14p2.pdf
[25] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 47

2014-15 and annually thereafter in terms of the actual savings as well. It might be useful if I did a note on this."[26]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dyraniad o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* a'r ad-daliadau iddi, ac mae'n fodlon ar hynny. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ymrwymo i gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n manylu ar yr arian sy'n cael ei drosglwyddo o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* a'i ad-dalu iddi. Dylai'r adroddiad nodi arbedion gwirioneddol ac arfaethedig prosiectau *buddsoddi i arbed*.**

[26] Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2014, paragraff 52

# 5. Proses y Gyllideb

46. Nododd y Pwyllgor lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at yr Ysgrifennydd Parhaol, Syr Derek Jones, o ran y defnydd o'r Gyllideb Atodol fel gwaelodlin yng Nghyllideb Ddrafft 2014-15. Roedd y llythyr yn awgrymu, pe bai'r cyhoeddiad am gyllid ychwanegol mewn perthynas ag Adolygiad Francis wedi'i gynnwys yn y cymariaethau gwaelodlin, byddai'r newid o flwyddyn i flwyddyn mewn cyllid iechyd ar gyfer 2014-15 wedi dangos gostyngiad mewn termau real yn hytrach na chynnydd. Dywedodd y Gweinidog:

> "I think that this supplementary budget and its scrutiny are about this financial year and accounting for the extra £150 million and the extra £50 million that I only recently announced in tabling the supplementary budget. Clearly, the impacts on future budgets will be a matter for scrutiny by this committee."[27]

**Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld symudiad pellach tuag at gyllidebu sy'n seiliedig ar ganlyniadau a gwelliant parhaus yn lefel y tryloywder o fewn y gyllideb, i sicrhau bod y wybodaeth fwyaf priodol a thryloyw ar gael i'w harchwilio yn gyhoeddus.**

[27] www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s23544/PAC4-03-14%20ptn1.pdf

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tachwedd 2013
www.wao.gov.uk

# Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyfrifol Ynghylch yr Amrywiad yng Nghyllideb yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014

Cyflwynwyd i bwyllgor cyfrifol (y Pwyllgor Cyllid) Cynulliad Cenedlaethol Cymru
i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys


## Trosolwg 4

## Diben y memorandwm esboniadol hwn 5

Cyflwyniad 5

Gofyniad o ran adnoddau refeniw 5

Gofyniad arian parod net 6

Crynodeb 7

Adnoddau cronnus 7

## Atodiadau

Atodiad 1 - Crynodeb o ofynion cyllidebol 2013-14 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 8

# Trosolwg

**1** Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i mi gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'm hincwm a'm gwariant i'r pwyllgor cyfrifol. Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol archwilio'r amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Cynulliad Cenedlaethol.

**2** Yn dilyn archwiliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus[1] o'm hamcangyfrif blynyddol cychwynnol ar gyfer 2013-14 ar 23 Hydref 2012, cyflwynais amcangyfrif diwygiedig a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 22 Tachwedd 2012. Yn ogystal â materion yn ymwneud â TAW roedd yr amcangyfrif diwygiedig hwn yn eithrio, ar gais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y costau o weithredu Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Amcangyfrifais ar y pryd y byddai'r costau hyn oddeutu £250,000.

**3** Hoffwn ddiwygio'r amcangyfrif diwygiedig hwn a gwahoddaf y pwyllgor cyfrifol i archwilio a chyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddiwygiedig hon ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2014.

1 Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus oedd y pwyllgor perthnasol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a rheolau sefydlog y Cynulliad ar y pryd.

# Diben y memorandwm esboniadol hwn

## Cyflwyniad

4 Hoffwn ddiwygio fy nghais am adnoddau refeniw, a'm gofyniad arian parod net cyfatebol cysylltiedig, o £5,224,000 ar gyfer 2013-14 drwy ei leihau £187,000 i £5,411,000.

5 Hoffwn hefyd ddiwygio fy amcangyfrif o adnoddau cronnus ar gyfer 2013-14 o £7,944,000 i £8,164,000. Nid yw'r newid olaf yn arwain at alw cynyddol am adnoddau gan Gronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa Gyfunol).

## Gofyniad o ran adnoddau refeniw

6 Rwy'n ceisio cynyddu fy nghais am adnoddau refeniw fel yr esboniwyd ym mharagraffau 7 i 12.

### Newid yn statws TAW cyflenwadau'r Archwilydd Cyffredinol

7 Yn fy amcangyfrifon blaenorol a'r adroddiadau blynyddol a chyfrifon a gyhoeddwyd ers i Swyddfa Archwilio Cymru gael ei chreu yn 2005, rwyf wedi tynnu sylw at atebolrwydd posibl sy'n gysylltiedig â newid posibl yn fy statws TAW. Yn dilyn cyngor proffesiynol, roedd fy nghyfrifon 2011-12 yn cynnwys darpariaeth o £2.4 miliwn yn ymwneud ag atebolrwydd TAW hanesyddol disgwyliedig.

8 Ym mis Rhagfyr 2012, cefais gadarnhad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi nad oedd yn ceisio gwneud asesiad ar gyfer atebolrwydd o'r fath, gan osgoi swm o £2.4 miliwn i'w dalu o'r Gronfa Gyfunol.

9 Fodd bynnag, dyfarnodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi hefyd y dylwn newid fy null o godi TAW o 1 Ebrill 2013. Effaith y dyfarniad hwn yw na allaf mwyach godi TAW ar ffioedd archwilio am waith statudol ar gyfer cyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG. O ganlyniad, nid wyf bellach yn gallu adennill swm sylweddol o TAW yr wyf wedi gallu ei adennill o'r blaen, sy'n arwain at gynnydd o £600,000 yn fy sail costau flynyddol.

10 Nododd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar fy amcangyfrif ar gyfer 2013-14, pe bai'r cynnydd hwn yn fy sail costau yn digwydd, y byddai angen i mi benderfynu pa falans y gellid ei adennill o ffioedd a pha falans y byddai angen ei ariannu o'r Gronfa Gyfunol. Nododd paragraff 33 o'r adroddiad hwnnw[2] fod y pwyllgor yn disgwyl cael trafodaethau pellach â mi ar ôl i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi wneud penderfyniad a phan oedd y sefyllfa yn gliriach.

11 Gan i ddyfarniad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddod ar ôl i mi bennu fy ffioedd archwilio ar gyfer 2013-14, roedd yn rhy hwyr i addasu'r ffioedd archwilio i ariannu'r cynnydd mewn costau yn y flwyddyn ariannol hon ac felly mae angen i mi ofyn i'r Gronfa Gyfunol am arian ychwanegol.

12 Fodd bynnag, er mwyn lleihau fy nghais i'r Gronfa Gyfunol i'r eithaf, rwy'n cynnig ariannu elfen llywodraeth leol (£413,000) y cynnydd hwn mewn costau o £600,000 yn 2013-14 o gronfeydd wrth gefn a gronnwyd gennyf o lywodraeth leol ers 2005. Fel yr esboniais yn fy amcangyfrif ar gyfer 2014-15, ni fyddaf yn

2 Paragraff 33, *Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar yr amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014*, Tachwedd 2012

gallu cadw'r cronfeydd wrth gefn hyn ar ôl 31 Mawrth 2014. Drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y ffordd hon, rwy'n lleihau fy nghais i'r Gronfa Gyfunol am arian am gostau TAW ychwanegol yn 2013-14 o £600,000 i £187,000.

13 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru a minnau yn nodi yn ein hamcangyfrif ar y cyd ar gyfer 2014-15 ein dull o ariannu'r pwysau ychwanegol hyn o ran costau yn y tymor hwy.

### Costau gweithredu Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

14 Fel yr esboniais yn fy nhrosolwg i'r amcangyfrif atodol hwn, yn fy amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2013-14 rhagamcenais mai £250,000 fyddai costau gweithredu gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Fodd bynnag, gan fod y ddeddfwriaeth yn dal i gael ei datblygu ar y pryd, cytunais â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i beidio â chynnwys yr swm hwnnw yn fy amcangyfrif blynyddol a cheisio arian ar gyfer costau gweithredu o'r fath drwy amcangyfrif atodol pan fyddai'r gofynion yn fwy hysbys.

15 Fy amcangyfrif cyfredol o gostau ychwanegol gweithredu'r Ddeddf yw £127,000. Mae'r costau hyn yn ymwneud â:

- a chydnabyddiaeth ychwanegol a chostau hyfforddi ar gyfer swyddogion anweithredol newydd Swyddfa Archwilio Cymru yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2014;
- b costau staff ychwanegol wrth ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu newydd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru; a
- c chyngor proffesiynol a chyfreithiol allanol ar ofynion a phroses weithredu ymarferol y ddeddfwriaeth newydd.

16 Mae'r rheswm pennaf am y lleihad rhwng fy amcangyfrif cychwynnol o £250,000 a'm hamcangyfrif cyfredol o £127,000 yn deillio o'r ffaith bod y darpariaethau 'yn unol yn fras' ar gyfer telerau ac amodau staff wedi eu dileu o'r ddeddf derfynol. Mae'r newid hwn wedi dileu'r angen am swm sylweddol o gyngor a gwaith proffesiynol a fyddai wedi bod yn angenrheidiol er mwyn gweithredu'r gofyniad hwnnw.

17 Er bod y gost o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd yn bwysau ychwanegol o ran costau nas cynhwysir yn fy nghyllideb ar gyfer 2013-14, rhagwelaf yn awr y byddwn yn cynnal gwaith ychwanegol na chyllidebwyd ar ei gyfer yn 2013-14 a fydd yn arwain at gynnydd yn fy sefyllfa o ran incwm a ragwelir ar gyfer y flwyddyn. Felly ystyriaf y gellir talu'r costau gweithredu ychwanegol hyn o'm cyllideb ddiwygiedig gyffredinol ar gyfer 2013-14, gan osgoi cais ychwanegol i'r Gronfa Gyfunol.

### Gofyniad o ran adnoddau refeniw ychwanegol

18 Felly rwy'n ceisio adnoddau refeniw ychwanegol drwy'r amcangyfrif atodol hwn, fel a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Costau TAW ychwanegol | 187 |
| **Cyfanswm y costau ychwanegol** | **187** |

## Gofyniad arian parod net

19 Rwyf hefyd yn ceisio cynnydd o £187,000 yn fy ngofyniad arian parod net mewn perthynas â'r costau ychwanegol a nodwyd uchod.

## Crynodeb

**20** Yn Nhabl 1, rhoddaf grynodeb o'r adnoddau refeniw rwy'n gofyn amdanynt drwy'r amcangyfrif atodol hwn a'r effaith ddilynol ar fy ngofyniad arian parod net.

**Tabl 1 - Crynodeb o'r adnoddau refeniw a'r ceisiadau am arian parod**

| | Cais am adnoddau refeniw £'000 | Gofyniad arian parod net £'000 |
|---|---|---|
| Amcangyfrif diwygiedig | 5,224 | 5,224 |
| Cais ychwanegol | 187 | 187 |
| Amcangyfrif diwygiedig | 5,411 | 5,411 |

## Adnoddau cronnus

**21** Roedd fy amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2013-14 yn cynnwys ffigur ar gyfer adnoddau cronnus o £7,944,000. Adnoddau cronnus yn fras yw'r incwm a dderbynnir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwaith y GIG, llywodraeth ganolog a llywodraeth leol y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi drwy Gynnig Cyllidebol i'w ddefnyddio ar ddarparu'r gwasanaethau hynny yn hytrach na'i dalu i mewn i'r Gronfa Gyfunol. Amcangyfrifaf bellach y caiff mwy o waith ei wneud yn y meysydd hynny yn 2013-14 na'r hyn a amcangyfrifais yn wreiddiol ac rwyf wedi cynyddu'r amcangyfrif hwnnw £220,000 i £8,164,000 yn Nhabl 2 o Atodiad 1. Bydd fy nghostau hefyd yn cynyddu yn ôl swm cyfatebol er mwyn cyflawni'r gwaith hwn.

# Atodiad 1 - Crynodeb o ofynion cyllidebol 2013-14 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006'), caiff Gweinidogion gyflwyno Cynnig Cyllidebol Atodol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer personau perthnasol, penodol gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol.

O ran gwasanaethau a dibenion yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2014, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- yr adnoddau sydd i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- yr adnoddau sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol y gall eu cadw (yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru); a'r
- swm y gellir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i'r Archwilydd Cyffredinol.

Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb llifau incwm, yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2 - Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2013-14**

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru[1]:<br>• Refeniw<br>• Cyfalaf | <br><br><br>5,411<br>20 |
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (ac eithrio ar gyfer gwaith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol); costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol; costau a adenillir oherwydd staff wedi'u secondio; benthyciadau staff a ad-delir; taliadau prydlesu ceir a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith at ddefnydd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru[2]. | 8,164 |
| Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol[3]. | 5,431 |

Nodiadau

1 Dyma'r refeniw a'r gwariant cyfalaf net o ran adnoddau y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hawdurdodi drwy Gynnig Cyllidebol o dan Adran 126(3)(a) o Ddeddf 2006.

2 Dyma'r incwm sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio'r incwm sy'n codi o weithgareddau llywodraeth leol) y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi drwy Gynnig Cyllidebol o dan Adran 126(3)(b) i'w ddefnyddio ar wasanaethau cysylltiedig yn hytrach na chael ei dalu i'r Gronfa Gyfunol.

3 Dyma'r arian parod sydd ei angen o Gronfa Gyfunol ar gyfer taliadau net amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol (taliadau llai derbyniadau) sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn i'w awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy Gynnig Cyllidebol o dan Adran 126(3)(c) o Ddeddf 2006.

Mae Tabl 3 yn cysoni cyfanswm cais am adnoddau'r Archwilydd Cyffredinol â'i ofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2014.

**Tabl 3 - Cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru**

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 5,431 |
| Addasiadau | 0 |
| Gofyniad arian parod net | 5,431 |

Yn ogystal â'r symiau a ddangosir yn Nhabl 2, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cronni adnoddau o weithgareddau llywodraeth leol o dan ran 1 ac adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, y caniateir iddo eu cadw i'w defnyddio mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau o dan y darpariaethau statudol hynny. Yn ystod 2013-14, amcangyfrifir y bydd yr adnoddau hyn yn gwneud cyfanswm o £9.490 miliwn. O dan baragraff 9(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, awdurdodir yr Archwilydd Cyffredinol i gadw incwm o'r fath yn hytrach na'i dalu i mewn i'r Gronfa Gyfunol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw felly yn rhan o'r swm i'w awdurdodi gan Gynnig Cyllidebol o dan adran 126 o Ddeddf 2006 ond fe'i cynhwysir er gwybodaeth.

## Atiodoad 2: Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld pob trawsgrifiad o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243.

*Dydd Mercher 18 Chwefror 2013*

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AC | y Gweinidog Cyllid |

## Atiodoad 3: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5931

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid | FIN(4)-03-14 Papur 1 |
| | FIN(4)-03-14 Papur 2 |